Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
Llangynwyd
Maesteg
Pen-y-bont ar Ogwr
CF34 9RW

19/02/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2026

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar 29 a’r 30 o Ionawr 2026. Roeddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- gynnal trafodaethau gydag arweinwyr a staff am eu gwaith hunanwerthuso a gwella, a'u gwaith yn edrych ar fedrau darllen disgyblion
- siarad â disgyblion a gwrando ar eu hadborth am yr ysgol
- ymweld â sampl fach o wersi mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- craffu ar sampl o waith disgyblion
- craffu ar sampl fach o ddogfennaeth ysgol berthnasol
- ymgymryd â gweithgareddau craffu gwaith ac arsylwi gwersi ar y cyd ag arweinwyr a thrafod prif ganfyddiadau'r gweithgareddau hyn

## Ffocws yr ymweliad

### Pa mor effeithiol yw prosesau hunanwerthuso’r ysgol wrth adnabod y cryfderau a’r meysydd i’w gwella yn y dysgu a’r addysgu?

Yn ystod ein hymweliad, braf oedd clywed am y ffordd mae arweinwyr wedi cynnal prosesau hunanwerthuso eang sydd wedi’u gwreiddio’n gadarn yn niwylliant yr ysgol. Gwelsom fod gan yr ysgol brosesau casglu tystiolaeth pwrpasol, gan gynnwys arsylwadau gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion a thrafodaethau proffesiynol rheolaidd.

Clywsom gan arweinwyr sut maent yn triongli tystiolaeth o'r gwahanol ffynonellau er mwyn ceisio cael darlun clir o gryfderau a meysydd datblygu'r ysgol.

Roedd yn gadarnhaol clywed am y ffordd y mae arweinwyr canol yn cael eu cynnwys yn llawn yn y prosesau hunanwerthuso. Mae ganddynt ddealltwriaeth o gryfderau a gwendidau yn eu hadrannau ac maent yn cyfleu ymdeimlad o berchnogaeth dros sicrhau gwelliant yn eu meysydd penodol. Mae hyn wedi'i gefnogi gan drefniadau rheoli llinell a chyfarfodydd proffesiynol rheolaidd. Yn ystod ein trafodaethau, clywsom sut mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r prosesau hyn fel modd i ddatblygu medrau arwain yr arweinwyr canol. Mae hyn yn cyfrannu at ddiwylliant o ymddiriedaeth a dysgu proffesiynol parhaus.

Trwy ein trafodaethau, daeth yn amlwg bod cysylltiadau rhwng hunanwerthuso, atebolrwydd a chynllunio gwelliant, gyda'r cynlluniau datblygu ysgol ac adrannol yn cael eu hystyried yn ddogfennau gweithredol sy'n esblygu dros amser. Roedd hefyd yn glir bod arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth am agweddau o addysgeg law yn llaw â gwybodaeth fugeiliol wrth ystyried profiadau disgyblion.

Credwn y byddai'n fuddiol petai'r ysgol yn ystyried:

- I ba raddau mae eich prosesau hunanwerthuso cynhwysfawr yn adnabod yn fanwl effaith eich gwaith ar gynnydd disgyblion?
- I ba raddau mae canfyddiadau hunanwerthuso yn arwain at bennu blaenoriaethau gwella a chamau gweithredu sydd yn mynd i gael yr effaith fwyaf ar gynnydd disgyblion?

## I ba raddau mae'r ysgol yn edrych yn benodol ar wella medrau darllen disgyblion?

Braf oedd clywed bod yr ysgol yn parhau i flaenoriaethu darllen a chynllunio'n ofalus i gryfhau medrau darllen disgyblion. Deallom fod arweinwyr yn cynnal hyfforddiant i ddatblygu strategaethau effeithiol i gryfhau uwch-fedrau darllen disgyblion a bod cyfleoedd rheolaidd i staff  rannu arfer dda.

Braf hefyd oedd clywed agweddau positif disgyblion am bwysigrwydd darllen. Roeddent yn canmol y cyfleoedd i gymharu, cywain a gwerthuso gwybodaeth o destunau mewn amrywiol bynciau. Diddorol oedd clywed barn disgyblion Blwyddyn 7 am y strategaeth newydd 'Dim ond darllen' a'r cyfleoedd cyson a buddiol i ymarfer eu medrau darllen ar goedd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Diddorol oedd deall bod yr ysgolion cynradd lleol hefyd yn cydweithio â'r ysgol ar ddatblygu'r strategaeth hon. Deallom fod arweinwyr yn gwerthuso ac addasu'r deunyddiau darllen i sicrhau bod lefel yr her yn briodol a bod cysondeb yng nghyflwyniad y deunyddiau i ymateb i anghenion bob disgybl. Clywsom fod yr ysgol wedi gwerthuso effaith y strategaeth yn ei dyddiau cynnar ac yn gweld bod hyder a dygnwch disgyblion wrth ddarllen darnau o destun ar goedd yn cryfhau.

Trwy ein trafodaethau, daeth yn amlwg bod yr ysgol yn defnyddio profion darllen, ynghyd â gwybodaeth bontio i ddarparu ymyraethau penodol i gefnogi'r disgyblion hynny sydd â medrau darllen gwan. Gwelwyd y pecynnau gwaith oedd wedi cael eu teilwra i gyd-fynd ag anghenion darllen y disgyblion, yn ogystal â'r pecyn cymorth i rieni gefnogi eu plant i gryfhau eu medrau darllen Cymraeg.

Nodwyd hefyd fod gwaith yr ysgol i ddatblygu diwylliant o ddarllen yn cael ei wau yn bennaf trwy'r gwersi Cymraeg a Saesneg. Deallom fod yr adrannau uchod yn darllen nofelau penodol i hybu mwynhad y disgyblion, heb eu llethu â thasgau llafurus. Yn ogystal, clywsom fod disgyblion y chweched yn arwain clwb darllen Saesneg er mwyn trafod a rhannu'r mwynhad o ddarllen gyda disgyblion iau yr ysgol.

Credwn y byddai'n fuddiol petai'r ysgol yn ystyried:

- A oes lle i ddatblygu'r gwaith cynllunio ymhellach gyda'r ysgolion cynradd ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion o Flwyddyn 6 i 7?
- A oes lle i finiogi neu gysoni ambell strategaeth ar ddarllen er mwyn cryfhau medrau disgyblion ymhellach?

Diolch eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad. Rydym yn dymuno'n dda i'r ysgol. Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6724085

Yn gywir

**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros dro